# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 9

AMRYWIOL

*Rhannu gwybodaeth*

### 159 Rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru

(1) Caiff aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth, at ddibenion arfer swyddogaethau penodedig yr aelod hwnnw mewn perthynas â phrif gyngor, wneud cais bod aelod arall o'r grŵp rhannu gwybodaeth yn darparu gwybodaeth neu ddogfen.

(2) Rhaid i aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth ddarparu gwybodaeth neu ddogfen y gwneir cais amdani o dan is-adran (1), i'r graddau—

(a) y cafwyd neu y crëwyd yr wybodaeth neu'r ddogfen gan yr aelod hwnnw wrth arfer swyddogaethau penodedig yr aelod, a

(b) ei bod yn rhesymol ymarferol i'r aelod hwnnw ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen.

(3) Os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Weinidogion Cymru, at ddiben arfer swyddogaeth a bennir yn is-adran (4), yn gwneud cais i aelod arall o'r grŵp rhannu gwybodaeth ddarparu gwybodaeth neu ddogfen ac—

(a) nad yw'n ofynnol i'r aelod hwnnw ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen o dan is-adran (2) neu unrhyw ddeddfiad arall, a

(b) nad oes gan yr aelod hwnnw bŵer o dan unrhyw ddeddfiad (ac eithrio'r adran hon) i ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen,

caiff yr aelod ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen honno.

(4) Y swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (3) yw—

(a) swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ran 5 (cydweithio gan brif gynghorau);
(b) swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Weinidogion Cymru o dan Bennod 1 o Ran 6 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu);
(c) swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Bennod 2 o Ran 7 (ailstrwythuro prif ardaloedd).

(5) At ddibenion yr adran hon—
(a) mae person yn aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth os crybwyllir y person hwnnw yng ngholofn gyntaf tabl 2;
(b) swyddogaethau penodedig yr aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth yw'r swyddogaethau a grybwyllir yn yr ail golofn.

TABL 2

| **Aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth** | **Swyddogaethau penodedig** |
|---|---|
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Swyddogaethau o dan adrannau 13 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) (archwilio cyfrifon ac astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth mewn gwasanaethau) |
| | Swyddogaethau o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (asesiadau sy'n ymwneud â'r egwyddor datblygu cynaliadwy) |
| | Swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf hon (arolygiadau arbennig o berfformiad prif gynghorau) |
| Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) (arolygu swyddogaethau addysg etc. prif gynghorau) |
| Gweinidogion Cymru | Swyddogaethau o dan adran 149A ac adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (adolygiadau etc. o arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol prif gynghorau) |
| | Swyddogaethau o dan Ran 5 (cydweithio gan brif gynghorau), Pennod 1 o Ran 6 (perfformiad prif gynghorau) neu Bennod 2 o Ran 7 (ailstrwythuro prif ardaloedd) o'r Ddeddf hon |

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio tabl 2 er mwyn—
(a) ychwanegu cofnod;
(b) diwygio cofnod;

(c) hepgor cofnod.

(7) Caiff rheoliadau o dan is-adran (6) ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad o ganlyniad i unrhyw ddiwygiad a wneir i dabl 2 gan reoliadau o dan is-adran (6), neu at ddibenion rhoi effaith lawn iddo.

(8) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (6) sy'n diwygio tabl 2, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) unrhyw bersonau sy'n cynrychioli prif gynghorau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy;

(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(c) y person y bydd cofnod newydd neu ddiwygiedig yn ymwneud ag ef;

(d) y person y mae cofnod sydd i'w hepgor yn ymwneud ag ef.

(9) Yn yr adran hon, mae "dogfen" yn cynnwys gwybodaeth a gofnodir ar unrhyw ffurf.

(10) Mae adran 33 o Fesur 2009 (rhannu gwybodaeth) yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion rhannu gwybodaeth a dogfennau—

(a) a gafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu a ddangoswyd iddo wrth arfer swyddogaethau o dan adrannau 17 i 19 o Fesur 2009, neu

(b) at ddiben arfer y swyddogaethau hynny gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### 160 Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sy'n ganlyniadol ar adran 159

Yn adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) (cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl paragraff (a) (ac o flaen yr "or" sy'n ei ddilyn) mewnosoder—

"(aa) pursuant to section 159 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021,";

(b) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) section 159 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;

(bb) for the purposes of any functions of the Auditor General for Wales which are specified functions within the meaning of section 159 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (and are not mentioned elsewhere in this subsection);".